# CYLCHLYTHYR PWYLLGOR DEINTYDDOL CYMRU

# PDC

**Ionawr 2025**



## Cynllun Gwên

Cynllun Gwên yw'r rhaglen genedlaethol i wella iechyd y geg ein plant. Mae’n seiliedig ar dystiolaeth wyddonol o ymyriadau effeithiol i atal pydredd dannedd yn ystod plentyndod, yn ogystal â gwybodaeth ynghylch lle a phwy sydd angen yr ymyriadau hyn fwyaf, a ddarperir gan Raglen Epidemioleg Ddeintyddol Cymru.

## Cynllun Gwên Adroddiad Blynyddol 2023– 2024

- Cafodd 640 o ymwelwyr iechyd a myfyrwyr hyfforddiant addysg iechyd y geg.
- Derbyniodd 832 o weithwyr proffesiynol eraill o'r maes gofal plant, iechyd a gofal cymdeithasol hyfforddiant tebyg gan dîm Cynllun Gwên.
- Darparodd 642 (79%) o feithrinfeydd cymwys a 531 (63%) o ysgolion cymwys raglen brwsio dannedd dan oruchwyliaeth yn 2023/24.
- Cafodd 4,668 o staff meithrinfeydd ac ysgolion hyfforddiant gan y tîm Cynllun Gwên i gyflwyno eu rhaglen brwsio dannedd.
- Cafodd 40,997 o blant driniaeth farnais fflworid yn yr ysgol yn 2023/24.



Adroddiad llawn: Adroddiad Blynyddol Cynllun Gwên 2023-2024 - Iechyd Cyhoeddus Cymru



## Iechyd Cyhoeddus Cymru

**Dyma sefydliad iechyd cyhoeddus cenedlaethol Cymru, sy'n bodoli i helpu pawb i fyw bywydau hirach, iachach. Gyda'i phartneriaid, ei nod yw cynyddu disgwyliad oes iach, gwella iechyd a llesiant, a lleihau anghydraddoldebau i bawb yng Nghymru, nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.**

**Mae timau Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio i atal clefydau, diogelu iechyd, darparu arweinyddiaeth system, gwasanaethau arbenigol ac arbenigedd iechyd cyhoeddus. Dyma'r brif ffynhonnell o wybodaeth, ymchwil ac arloesedd iechyd cyhoeddus, i helpu pawb yng Nghymru i fyw bywydau iachach. Gweithio gyda'n gilydd ar gyfer Cymru iachach .**

# Dadansoddiad o gyfraddau canser y geg a'r ffaryncs yng Nghymru, Tachwedd 2024

- Mae nifer yr achosion o ganser y geg a'r ffaryncs wedi cynyddu rhwng 2012 a 2021.
- Mae nifer yr achosion o ganser y geg ymhlith dynion yn fwy na dwywaith yr achosion ymhlith menywod, gyda'r nifer mwyaf yn digwydd rhwng 60 a 69 oed.
- Y tafod oedd y safle mwyaf cyffredin ar gyfer canser y geg.
- Mae'r rhan fwyaf o bobl sydd â chanser y geg yn byw mewn ardaloedd difreintiedig yng Nghymru.
- Canser y tafod a'r oroffaryncs oedd â'r nifer uchaf o farwolaethau cysylltiedig o'i gymharu â rhannau eraill o'r geg.

## Gweledigaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru




Erbyn 2035, byddwn wedi cyflawni dyfodol iachach i Gymru. Rydym yn gweithio tuag at Gymru lle mae pobl yn byw bywydau hirach, iachach a lle mae gan bawb yng Nghymru fynediad teg a chyfartal at y pethau sy'n arwain at iechyd a llesiant da .

Adroddiad llawn: https://phw.nhs.wales/files/dental-public-health/analysis-of-oral-and-pharyngeal-cancer-rates-in-wales-2024/



# Defnyddio data i wella gwasanaethau deintyddol

**Yn 2024, cynhaliwyd gweithdai dan arweiniad Iechyd Cyhoeddus Cymru, gyda rhanddeiliaid allweddol, i drafod y defnydd o ddata i lywio datblygiad gwasanaethau deintyddol.**

**Mae rhai o'r negeseuon allweddol o'r gweithdai wedi'u crynhoi isod.**

## Egwyddorion

- **Perthnasol:** rhaid i'r data fod yn berthnasol i'r rhai sy'n defnyddio'r wybodaeth
- **Manylder:** cynyddu manwl-gywirdeb data
- **Digon da:** y cyfan sydd ei angen yw bod y data'n ddigon cadarn i lywio penderfyniadau
- **Ar gael:** Defnyddio data sydd eisoes ar gael
- **Dibynadwy:** mae angen gallu dibynnu ar y ffaith fod y data'n gywir
- **Tryloyw:** dylai data fod ar gael i bawb – er mwyn hwyluso cyd-ddealltwriaeth



## Hwyluso Newid

Mae gan ddata'r potensial i hwyluso newid os caiff dangosyddion priodol eu bwydo'n ôl i'r boblogaeth darged.

Gall gwybodaeth am **brofiad bywyd** y rhai sy'n cymryd rhan fod yn ychwanegiad pwerus.

Gall datblygu lefel o ragolygon rhagfynegol helpu i ddisgrifio canlyniadau llwybrau amgen.

## Cyfathrebu

Storfa ganolog: Dod â data at ei gilydd er mwyn i randdeiliaid gael mynediad ato. Mae mapio a delweddu data yn gallu helpu i gyflwyno data a pherthnasoedd cymhleth ac mae dangos data dros amser yn ein galluogi i weld tueddiadau (e.e. gwelliannau iechyd)
Dealltwriaeth: Mae'n bwysig bod rhanddeiliaid yn gallu deall y dangosyddion data.



# ATAL YMWRTHEDD GWRTHFICROBAIDD

**IYn ein cylchlythyr diwethaf, fe wnaethom dynnu sylw at Wythnos Ymwybyddiaeth Ymwrthedd Gwrthficrobaidd y Byd.**

**Rydyn ni am ailedrych ar y pwnc pwysig hwn yn y cylchlythyr hwn, gyda rhywfaint o gyngor ar sut gallwch chi helpu.**



## Sut galla i wneud gwahaniaeth?

- Dilyn canllawiau sy'n seiliedig ar dystiolaeth
- Cofio mai ychwanegiad yw gwrthfiotigau; nid triniaeth
- Peidio â'u cymryd ar gyfer cyflyrau llidiol
- Angen archwilio, hunanwerthuso a myfyrio ystyrlon
- Rhoi negeseuon priodol i gleifion

**Defnyddio Penicillin V yn lle Amoxicillin**

# CYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT MEWN DEINTYDDIAETH

**IYn ein cylchlythyr diwethaf, fe wnaethom hefyd gyflwyno Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant newydd y BDA.**

**Yn ein cyfarfod diweddar, cawsom olwg ar waith y Pwyllgor gan Lauren Harrhy.**

## Bwlch cyflog rhwng y rhywiau

Mae yna fwlch cyflog rhwng y rhywiau yn y byd deintyddiaeth o hyd, gyda deintyddion benywaidd yn ennill llai na rhai gwrywaidd. Mae seibiannau gyrfa a gweithio'n rhan-amser oherwydd dyletswyddau gofalu yn gwaethygu hyn. Nod y BDA yw codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo tryloywder am gyflogau.

## Taclo ymddygiad amhriodol

Mae'r pwyllgor yn tynnu sylw at y cysyniad ymyrraeth weithredol (Active Bystander) ac yn annog pobl i gamu i'r adwy a mynd i'r afael ag ymddygiad amhriodol. Gallai hyn olygu ymddygiad di-hid, anfwriadol; ymddygiad annifyr (bwriadol); neu ymddygiad troseddol (aflonyddu, gwahaniaethu).

## Meysydd ffocws newydd

Niwroamrywiaeth
Anabledd
LHDTC+
Mentrau gwrth-wahaniaethu ehangach, gan gynnwys hiliaeth a rhywiaeth, ond hefyd mathau eraill o anghydraddoldeb.

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau neu safbwyntiau am waith Pwyllgor Deintyddol Cymru, cysylltwch â:


**Cadeirydd PDC: Adam Porter - adam.porter2@wales.nhs.uk**
**Is-gadeirydd: Jonathan Carter - chairgwentldc@gmail.com**
**Ysgrifennydd: Rebecca Evans - rebecca.evans034@llyw.cymru**